# Awdurdod Parc Cenedlaethol

## 15 Mehefin 2022

Yn Bresennol (Yn Bersonol)
Cynghorydd Mrs D Clements (Cadeirydd)
Cynghorydd Steve Alderman, Mrs J James, Cynghorydd M James, Cynghorydd R Jordan, Mr GA Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd Mrs S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd Mrs M Wiggins, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd C Williams.

Yn Bresennol (O Bell)
Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss a Dr RM Plummer.

[Parc Llanion, Doc Penfro ac yn Rhithiol 11.00am – 1.05pm]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Dr SL Hancock.

**2. Datgan Buddiannau**
Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2022 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**Penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2022.

**4. Materion yn codi**
Rhybudd o Gynnig ynglŷn â thir yn Freshwater East ar gyfer darparu maes chwarae i blant (Cofnod 7)
Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai adroddiad ar y mater hwn yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Adolygu Gweithredol yn ddiweddarach yn y mis.

**Nodwyd.**

Prynu Tir fel rhan o Gyllid Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy ar gyfer Atafaelu Carbon y Parc Cenedlaethol (Cofnod 10)
Dywedodd y Prif Weithredwr bod y broses o brynu'r tir yn raddol bach yn mynd rhagddi.

**Nodwyd.**

**5 . Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu ymweliad diweddar y Gweinidog, Julie James, â Saundersfoot, lle yr agorodd rwydwaith yr Awdurdod o bwyntiau gwefru cerbydau trydan, a'i bod hefyd wedi cael golwg ar y gwaith o adfywio’r harbwr a’r gwelliannau i fioamrywiaeth yn Nhrevayne gerllaw. Ar y diwrnod hwnnw hefyd roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cyflwyno ei Siarter Uwch ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau i'r Awdurdod. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi mynychu ail-agor Gardd Furiog Castell Picton. Mynegwyd cydymdeimlad yr Awdurdod â'r Cynghorydd M James ar farwolaeth ei fam, a llongyfarchwyd Steve Drinkwater, Cadeirydd Cyfeillion APCAP oedd wedi derbyn yr MBE yn rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines yn ddiweddar.

Gofynnodd un Aelod faint o bwyntiau gwefru cyflym yr oedd yr Awdurdod wedi'u gosod fel rhan o'r rhwydwaith, a dywedwyd wrtho bod 20, ac y byddai hyn yn caniatáu i 120 o geir gael eu gwefru mewn safleoedd ar draws y sir. Gofynnodd yr Aelodau am fap o’r pwyntiau gwefru, a chytunwyd i ddosbarthu hwn.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau eu hystyried/er gwybodaeth:

(i) Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2022;
(ii) Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2022;
(iii) Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2022;
(iv) Pwyllgorau Ieuenctid a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2022 a 26 Ebrill 2022;
(v) Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2022; a’r
(vi) Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Mai 2022.

Gan nodi nad oedd y Cynghorydd K Doolin yn Aelod bellach o’r Awdurdod Parc Cenedlaethol, gofynnwyd i gofnodion y Pwyllgor Adolygu Gweithredol fynegi diolch yr Aelodau iddo am gadeirio'r Pwyllgor hwnnw.

Gan gyfeirio at ystyriaeth y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol o adroddiad Archwilio Cymru ar Dwristiaeth Gynaliadwy, cytunodd y Prif Weithredwr i ddosbarthu’r adroddiad hwn i'r Aelodau.

**Penderfynwyd** mabwysiadu/derbyn cofnodion y Pwyllgorau a enwir uchod.

**7 . Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod yn derbyn y rhan fwyaf o'i gyllid gan Lywodraeth Cymru, oedd wedi amlinellu ei flaenoriaethau mewn Llythyr Cylch Gwaith. Roedd yr Awdurdod wedi derbyn llythyr Cylch Gwaith yn ddiweddar oedd yn cwmpasu Tymor y Llywodraeth (hyd at 2026) ac roedd copi o hwn wedi'i atodi i'r adroddiad. Roedd gan yr Awdurdod berthynas hirsefydlog gyda Llywodraeth Cymru ac roedd mewn sefyllfa dda i gyflawni'r rhan fwyaf o'r gofynion a restrir yn y Llythyr Cylch Gwaith. Roedd Llythyr Cylch Gwaith tymor hwy yn galluogi'r Awdurdod i gynllunio ei waith dros y tymor hwy, a byddai hyn yn cael ei ymgorffori yn ei raglenni cynllunio corfforaethol a'i raglenni gwaith.

Roedd yr Aelodau yn croesawu'r dull tymor hwy hwn o weithredu, ond o'r farn ei bod yn drueni y byddai'r gyllideb yn dal i gael ei phennu yn flynyddol. Roedd ganddynt ddiddordeb mewn creu tair swydd Arweinydd Strategol i weithio ar draws tirweddau gwarchodedig yng Nghymru, ac y byddai cyllid ychwanegol ar gael ar eu cyfer. Fodd bynnag, mynegwyd peth pryder ynghylch cynigion Llywodraeth Cymru i greu Coedwig Genedlaethol i Gymru, gan y gallai hyn gymryd tir amaethyddol o ansawdd da oedd ei angen ar gyfer cynhyrchu bwyd. Barnwyd y byddai gwell rheolaeth ar y coetir presennol yn fwy buddiol.

**Nodwyd.**

**8. Bwrdd Rheoli Maethynnau**

Atgoffwyd yr Aelodau bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cyhoeddi adroddiad fis Ionawr 2021 oedd yn asesu a oedd afonydd yn cydymffurfio â'r targedau diwygiedig ar ffosfforws ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd Cymru. O'r 107 o gyrff dŵr a aseswyd, roedd 61% wedi methu. Roedd hyn yn cynnwys Ardal Afon Cleddau, oedd â chyfradd fethiant o 88%.

Yng ngoleuni'r uchod, roedd CNC wedi cyhoeddi canllawiau cynllunio interim yn cynghori awdurdodau cymwys i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cyn penderfynu ar unrhyw gais cynllunio fyddai'n cynhyrchu mwy o ddŵr gwastraff, er mwyn sicrhau na fyddai'r dyluniad yn cyfrannu at lefelau uwch o ffosffad yn yr Ardal. Felly, nid oedd unrhyw ddatblygiad oedd yn cynyddu'r lefelau ffosffad yn yr Ardal Cadwraeth Arbennig yn dderbyniol o dan yr Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd.

Roedd CNC wedi gofyn i'r Awdurdodau yr effeithir arnynt sefydlu Bwrdd Cynllun Rheoli Maethynnau ar gyfer ACA Afon Cleddau a'i rôl fyddai clustnodi a chyflawni camau gweithredu i lwyddo i gyrraedd targedau cadwraeth yr ACA. Y prif fecanwaith o gyflawni hyn fyddai drwy gyflawni'r Cynllun Rheoli Maethynnau. Roedd Cylch Gorchwyl y Bwrdd wedi'i atodi i'r adroddiad.

Roedd cyfarfod cyntaf y Bwrdd, lle'r oedd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc yn cynrychioli'r Awdurdod, wedi'i gynnal yn ddiweddar, a gofynnwyd am gymeradwyaeth i ddirprwyo penderfyniadau sy'n ymwneud â'r Bwrdd Rheoli Maethynnau i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc.

Gan nodi bod y canllawiau a gyhoeddwyd yn golygu goblygiadau difrifol i'r holl gwestiwn o ddarparu tai yn y Sir, gofynnodd yr Aelodau am gael gwybod yn rheolaidd am waith y Bwrdd. Ychwanegodd y Prif Weithredwr nad oedd ACA Afon Cleddau wedi effeithio'n sylweddol ar yr Awdurdod ar hyn o bryd o ran ei effaith ar benderfyniadau cynllunio. Fodd bynnag pe byddai'r adroddiad yn cael ei ymestyn i gynnwys ACAau Morol, mae'n debygol y byddai'r effeithiau yn sylweddol, a phe bai hynny'n digwydd, byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau.

**Penderfynwyd** dirprwyo penderfyniadau ynghylch Bwrdd Rheoli Maethynnau ACA Cleddau i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc.

**9. Polisi Teledu Cylch Cyfyng**

Dywedwyd bod y polisi hwn yn disodli ac yn diweddaru polisïau teledu cylch cyfyng safle-benodol yr Awdurdod, ac y byddai'n cefnogi dull mwy cydlynol o reoli systemau TCC ar draws safleoedd yr Awdurdod drwy gael un polisi. Gofynnwyd am gymeradwyaeth i'r polisi.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod y polisi yn gynhwysfawr ac wedi'i ysgrifennu'n dda. Gan nodi bod y polisi yn caniatáu defnyddio teledu cylch cyfyng at ddibenion disgyblu (Para 10) gofynnwyd a ddylai cuddwylio gael ei gynnwys yn y polisi at ddibenion eraill. Dywedodd y Swyddog Monitro nad oedd yr Awdurdod yn cael cynnal cuddwylio o dan y Ddeddf Pwerau Rheoleiddio.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Polisi Teledu Cylch Cyfyng**.**

**10. Cyllid Cyfleusterau Cyhoeddus**

Dywedwyd bod llythyr wedi dod i law oddi wrth Brif Weithredwr Cyngor Sir Penfro yn gofyn i'r Awdurdod gyfrannu at reoli'r cyfleusterau cyhoeddus ger meysydd parcio yr Awdurdod Parc Cenedlaethol drwy gynyddu'r taliadau parcio ceir a neilltuo'r arian ychwanegol a throsglwyddo'r incwm

hwnnw i Gyngor Sir Penfro. Atgoffwyd yr Aelodau bod cais blaenorol am gyfraniad ariannol fis Chwefror 2020 wedi'i wrthod gan Aelodau'r Awdurdod.

Nodwyd hefyd mai Cyngor Sir Penfro sy’n rheoli ac yn ariannu’r cyfleusterau cyhoeddus yn Sir Benfro. Tra bod 13 o doiledau wedi'u lleoli ar neu gerllaw tir sy'n eiddo i APCAP nid oedd yr Awdurdod yn rheoli'r cyfleusterau hyn a thra bod yr Awdurdod yn berchen ar dri o'r adeiladau hyn, maent wedi’u prydlesu i Gyngor Sir Penfro. Roedd darparu cyfleusterau cyhoeddus yn wasanaeth anstatudol i Gyngor Sir Penfro, er bod y gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi’n fawr gan y cyhoedd.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr nad oedd yr Awdurdod o'r blaen wedi mabwysiadu’r dull o glustnodi arian o weithgaredd a'i drosglwyddo i sefydliad arall, ac roedd yn cwestiynu a allai hyn osod cynsail. Hefyd dywedodd nad oedd yr Awdurdod wedi gofyn am gyngor gan Gyfreithwyr eto ynghylch a oedd y cam hwn yn bosibl neu beidio, a dywedodd pe bai'r Aelodau o blaid cefnogi'r egwyddor, y cynharaf y gellid cyflwyno cynllun o'r fath fyddai 2023 oherwydd ei bod yn ofynnol i gynnal ymgynghoriad statudol o 12 wythnos ar gyfer diwygio'r Gorchymyn Parcio Ceir. Yr ystyriaeth arall oedd y posibilrwydd o gyflwyno ardoll twristiaeth yn y dyfodol, allai godi arian ar gyfer darparu toiledau.

Er bod pob Aelod yn cytuno bod darparu toiledau cyhoeddus yn bwysig, barnai rhai bod hyn yn rhywbeth y gellid ac y dylai CSP ei ariannu, pe baent yn gwneud penderfyniadau gwahanol ynghylch yr arian a godir ganddynt. Nodwyd hefyd bod yr Awdurdod yn talu £800k am gynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus o fewn ardal y Cyngor Sir, ac y dylid defnyddio hyn fel arf bargeinio mewn unrhyw drafodaethau.

Serch hynny roedd Aelodau eraill o’r farn ei bod yn bwysig i'r Awdurdod dalu ei gyfran am ddarparu'r cyfleusterau pwysig hyn, gan gynnwys gwell cyfleusterau i'r anabl, a chynigiwyd ac eiliwyd bod yr egwyddor o glustnodi arian i'r diben hwn yn cael ei gytuno. Ystyriwyd bod y mater o daliadau maes parcio a cherdyn parcio tymhorol yn rhywbeth yr oedd angen edrych arno eto, a chytunodd y Prif Weithredwr y byddai adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.

Cynigiwyd gwelliant i’r cynnig, sef yn hytrach nag ymrwymo i ddarparu cyllid, bod yr Awdurdod yn agor trafodaethau rhagarweiniol gyda’r Cyngor Sir ar lefel swyddogion neu fel gweithgor swyddogion/Aelodau ac yn defnyddio’r trafodaethau hynny fel cyfle i eiriol dros ddarparu toiledau ‘lleoedd newid’ oedd yn darparu cyfleusterau gwell i ddefnyddwyr anabl. Eiliwyd hyn, ac enillwyd y bleidlais. Daeth hwn yn gynnig o sylwedd ac yn dilyn ail bleidlais, pasiwyd y cynnig.

**Penderfynwyd** bod yr Awdurdod yn agor trafodaethau rhagarweiniol gyda Cyngor Sir Penfro ar lefel swyddogion neu fel gweithgor swyddogion/Aelodau a defnyddio'r trafodaethau hyn fel cyfle i gyd-drafod materion er budd yr Awdurdod, gan gynnwys darparu toiledau 'lleoedd newid' oedd yn darparu cyfleusterau gwell i ddefnyddwyr anabl.

**11. Panel Recriwtio ar gyfer y Swydd Cyfarwyddwr**

Atgoffwyd yr Aelodau bod gan yr Awdurdod gynllun dirprwyo ar gyfer penodi staff sy'n dirprwyo cyfrifoldeb i'r Prif Weithredwr, ac eithrio rolau Statudol megis Swyddog Adran 151, a Chyfarwyddwyr. Yr Aelodau oedd yn gyfrifol am y penodiadau hyn ac roedd hynny wedi'i gynnwys yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor Adnoddau Dynol.

Yn dilyn ymddiswyddiad y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd presennol y Parc, penderfynwyd dechrau recriwtio Cyfarwyddwr newydd cyn gynted â phosibl er mwyn ceisio lleihau'r cyfnod heb Gyfarwyddwr. Felly, cyfarfu'r Pwyllgor Adnoddau Dynol ar 18 Mai i gychwyn y broses. Yn y cyfarfod hwnnw bu'r Aelodau'n trafod y meini prawf allweddol ar gyfer penodi Cyfarwyddwr newydd, a rhoddwyd cyfarwyddyd i'r Rheolwr Adnoddau Dynol roi’r broses hon ar waith.

Fodd bynnag, oherwydd newid yn Aelodaeth yr Awdurdod yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol a newidiadau posibl yn dilyn Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, awgrymodd y Pwyllgor Adnoddau Dynol, yn ei gyfarfod ar 18 Mai, er mwyn sicrhau parhad yn y broses recriwtio, y dylai’r panel recriwtio gydol y broses benodol hon o benodi, ond cynnwys yr Aelodau hynny a fynychodd y cyfarfod cychwynnol hwnnw. Cynigiwyd y dylai hyn fod yn berthnasol i'r broses recriwtio benodol hon yn unig.

Roedd yr Aelodau yn hapus â’r awgrym hwn, a chynigiwyd ac eiliwyd y cynnig.

Dywedodd un Aelod bod Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu hefyd yn eistedd ar y panel cyfweld pan benodwyd y Cyfarwyddwr presennol, a chynigiwyd bod yr Aelodau hynny yn cael eu cyfethol i'r panel yn yr un modd y tro hwn. Eiliwyd hyn hefyd, ac enillwyd y bleidlais ar y gwelliant hwn.

Pleidleisiwyd wedyn ar y cynnig o sylwedd y dylid cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar y Panel Recriwtio ar gyfer Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc, yn ychwanegol at yr Aelodau a amlinellwyd, ac enillwyd hyn.

**Penderfynwyd** bod y Panel Recriwtio ar gyfer Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc yn cynnwys yr Aelodau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyngh M James (Cadeirydd y Pwyllgor AD) | Cyngh D Clements |
| Mrs J James (Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor AD) | Dr R Heath Davies |
| Dr M Havard (Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu) | Cyngh P Morgan |
| Mr G Jones (Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu) | |

**12. Digwyddiadau Corfforaethol**

Roedd yr adroddiad yn nodi'r digwyddiadau hynny y gwahoddwyd Aelodau'r Awdurdod iddynt yn ystod y flwyddyn i ddod, a gofynnwyd i'r Aelodau gytuno bod cynrychiolwyr yn mynychu'r digwyddiadau hyn.

Yn y cyfarfod, nodwyd dyddiad a lleoliad Cynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gan fod y manylion hyn bellach ar gael. Gan nad oedd pob Aelod yn bresennol y diwrnod hwnnw, byddai manylion y digwyddiadau yn cael eu dosbarthu i bob Aelod er mwyn rhoi cyfle i bawb oedd â diddordeb ymateb.

**Penderfynwyd** awdurdodi'r Aelodau i fynychu'r digwyddiadau fel a ganlyn :

(a) Cynhadledd Cynllunio Cymru: Cynllunio ar gyfer Iechyd a Llesiant – 23 Mehefin 2022 yng Ngwesty Mercure Holland House, Caerdydd (Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu)

*(b)* Cynhadledd Parciau Cenedlaethol y DU a gynhelir gan Barc Cenedlaethol Exmoor rhwng 27 a 29 Medi 2022 *(4-6 Aelod)*

(c) Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn Llandudno ar 22 Medi 2022 *(Hyd at 2 Aelod)*

(d) Cynhadledd Europarc yn Argelès-sur-Mer, Ffrainc o 3 – 7 Hydref 2022. Y ffocws fyddai "Mae'r hinsawdd yn newid! Sut all Ardaloedd Gwarchodedig addasu?" *(Hyd at 2 Aelod)*

(e) Dyddiad a lleoliad y Cwrs Sefydlu Cenedlaethol i Aelodau i'w cadarnhau *(Aelodau newydd fel arfer, neu'r rhai nad ydynt eto wedi cael y cyfle i fynychu Cwrs Sefydlu)*

[Ymddiheurodd y Cynghorydd P Kidney a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol]

**13. Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg**

Atgoffwyd yr Aelodau ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd iddo o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd Safonau 158, 164 a 170 o'r Hysbysiad Cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i Adroddiad Blynyddol gael ei gynhyrchu erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn, a chyflwynwyd yr adroddiad ar gyfer 2021/22 i'r Aelodau ei ystyried.

Nodwyd nad oedd yr ystadegau ar gyfer nifer yr ymweliadau â gwefan yr Awdurdod am y flwyddyn wedi'u nodi (para 2.6.1). Ymddiheurodd y swyddog am y diffyg hwn a dywedodd y bu 5,583 o drawiadau ar y safle Cymraeg, a 1096,366 ar y safle Saesneg. Hefyd cwestiynwyd y ffigurau oedd yn ymwneud â sgiliau iaith Gymraeg yr Aelodau (para 4.6.4). Dywedodd y swyddog bod y ffigurau'n ymwneud ag Aelodaeth flaenorol yr Awdurdod ac y byddai'n diweddaru'r rhain.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod yr adroddiad yn dangos cynnydd ar y cyfan. Fodd bynnag, roeddent yn bryderus ynghylch y niferoedd isel oedd yn defnyddio'r wefan Gymraeg, ac o’r farn bod angen dadansoddiad mwy manwl o'r rhesymau dros hyn. Hefyd, awgrymwyd bod angen cynllun gweithredu ar gyfer ailosod arwyddion (2.8.1) i roi amcan o'r amseru. Tra’n sylweddoli bod anawsterau technolegol, mynegwyd pryder ynghylch yr anhawster o gynnig cyfle i siaradwyr, yn enwedig yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu, annerch y Pwyllgor drwy gyfrwng y Gymraeg (2.4), a’r gobaith oedd y gellid mynd i’r afael â hyn; awgrymwyd y dylai'r geiriau mewn cromfachau oedd yn ymwneud â darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ddarllen 'os gofynnir', yn hytrach nag 'os oes angen'. Barnwyd y dylai'r adroddiad roi gwell ymdeimlad o’r modd yr oedd yr Awdurdod yn ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg drwy ei weithgaredd ymgynghori (3.2) yn hytrach na chanolbwyntio ar y gweithgaredd ei hun. Awgrymwyd nad oedd yr adran ar recriwtio (4.9.1) yn amlygu’n ddigonol y trafodaethau a gafwyd mewn perthynas â gofynion iaith pob swydd wag o fewn yr Awdurdod. Yn olaf, gofynnwyd am adroddiad cynnydd mewn perthynas â strategaeth 5 mlynedd yr Awdurdod.

Cytunodd y swyddog i ddiwygio'r adroddiad yn unol â hynny. Dywedodd y byddai adolygiad o strategaeth 5 mlynedd yr Awdurdod yn cael ei gynnal cyn hir, ac y byddai adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol fel cyflwyniad yr Awdurdod i Gomisiynydd y Gymraeg, yn amodol ar y diwygiadau uchod.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022 heb eu diwygio.